# Cylchlythyr Blwyddyn 8

YSGOL CALON CYMRU

Rhagfyr 2022 / December 2022

CYF /VOL.



## Neges y Pennaeth:

fywyd yr ysgol uwchradd. Mae'r cylchlythyr hwn yn rhoi gwybodaeth am yr hyn y mae'r disgyblion yn ei ddysgu, eu llwyddiannau ac yn gyfle i'n disgyblion rannu eu llais eu hunain!

Bu'n dymor prysur arall yn Ysgol Calon Cymru ac rydym wrth ein bodd i rannu Cylchlythyr olaf y flwyddyn gyda chi. Rydym yn falch tu hwn o'n disgyblion yma yn Ysgol Calon Cymru aac mae'n bleser gweld cymaint ohonynt yn ffynnu. Fel y gwelwch, mae yna ystod eang o weithgareddau'n digwydd drwy'r ysgol, yn yr ystafelloedd dosbarth a thu allan. Yn ddyddiol y gwelaf dalent a sgiliau ein disgyblion mewn cymaint o feysydd.

Wrth gwrs, ni fyddai'n bosibl cael y gorau gan ein disgyblion getting heb eich cefnogaeth chi, a hoffwn ddiolch i chi am weithio gyda ni i wneud yr ysgol y gorau y gall fod. Rwy'n gobeitthio y byddwch i gyd yn mwynhau gwyliau'r Nadolig ac yn cael cyfle i dreulio amser gwerthfawr gyda theulu a ffrindiau.

Nadolig Llawen
Dr R. Jones

## Presenoldeb

Llongyfarchiadau i 8C am gael y presenoldeb uchaf yr hanner tymor diwethaf.

Llongyfarchiadau i 8C am gael y presenoldeb uchaf yr hanner tymor hwn eto!

## Credydau

Llongyfarchiadau i 8C am gael y credydau uchaf yr hanner tymor diwethaf.

Congratulations to 8C for acheiving the

## Disgybl yr Wythnos

Da iawn i'r disgyblion i gyd a enwebwyd ar gyfer disgybl yr wythnos yr hanner tymor hwn. Fe'ch cydnabyddwyd am wneud y cam pellach. Daliwch ati gyda'r gwaith da!

Kally-Arna Hurley
Liv James
Iolo McMahon
Loki Brown
Lewis Bennett
Alfie Davies

# Llwyddiannau Blwyddyn 8



Hoffem longyfarch y disgyblion canlynol a etholwyd yn Gapten ac Is-Gapten. Hoffem hefyd ddiolch i bawb a gynigiodd am y swydd.

8A - Eds Edwards a Jacob Sivers
8B - Harvey Parker-Jones a Billi Chance
8C - Connie James a Scott Powell
8D - Esme Wilson a Caleb Barrett

Llongyfarcvhiadau i Emily Lewis 8D am ennill Cogydd y Mis. Coginiodd Emily bryd pasta blasus a'i fwyta i ginio wedi hynny!






Merched Dan13 v Llanfyllin
Rowndiau Rhanbarthol Powys, Cwpan Cenedlaethol

Daeth gêm wych o bêl droed i ben gydag Ysgol Calon Cymru'n ennill 6-2! Er nad aethant heibio'r rownd gyn-derfynol, rydym mor falch o'u gwaith caled ac ymrwymiad.

Cystadleuaeth Pêl Fasged De Powys – Merched Dan 13A a B
Chwaraeodd Ysgol Calon Cymru yn eu twrnamaint pêl fasged cystadleuol cyntaf erioed yng Nghanolfan Hamdden Aberhonddu. Roedd y merched yn nerfus iawn i ddechrau cyn ffeindio'u cyflymder. Er mai ychydig iawn o brofiad oedd gan y merched roedd tîm B yn ail yn eu carfan ac roedd tîm A yn drydydd yn eu un hwy. Fel y timau merched gorau eu safle maent yn mynd yn eu blaenau nawr i'r Rownd Rhanbarthol Derfynol ar ôl y Nadolig.





## Cwricwlwmi Gymru

Rydym newydd ffurfio ein grŵp dysgwyr Cwricwlwm i Gymru a gafodd eu gweithdy cyntaf oedd yn anelu at ateb y cwestiwn: 'Beth mae dysgu'n edrych fel?' Roedd yn weithdy da gyda grŵp gwych o ddysgwyr fydd yn gyfryngol yn nhaith Ysgol Calon Cymru tuag at y Cwricwlwm i Gymru. Da iawn chi gyd!

## Cystadleuaeth Awdur Ifanc y Rotari

Y tymor hwn mae disgyblion YCC wedi bod y gweithio ar gofrestriadau ar gyfer Cystadleuaeth Awdur Ifanc y Rotari. Thema eleni yw 'Heddwch'. Mae'r disgyblion wedi cynhyrchu rhai darn coeth o ysgrifennu sy'n rhan o'r broses rhestr fer ar y funud. Cawn weld beth ddaw!

## Hwyl Fawr

Ar ddiwedd y tymor bvyddwn yn ffarwelio â'n Swyddog Lles, Miss Bitti. Diolch am bob amser gynnig lle diogel i'n disgyblion, byddwn yn gweld eich eisiau. Rydym yn ffarwelio hefyd â'n myfyrwyr TAR, Miss Cartwright a Mrs De-Winton. Diolch am eich holl waith caled yr hanner tymor hwn. Dymuniadau gorau i chi yn eich dyfodol!

## Hwyl y Nadolig

Daeth disgyblion ar draws Ysgol Calon Cymru at ei gilydd am noson o gerddoriaeth a darlleniadau Nadolig. Da iawn i bawb oedd ymhlyg, ffordd berffaith i nodi dechrau'r cyfnod yr ŵyl.



## Ffair Lyfrau

Ym mis Tachwedd we hosted a book fair run by Book-ish from Crickhowell. Pupils had the opportunity to take home a free book, funded by the Welsh Government's Schools Love Reading Campaign.

## Wythnos Gwrth-fwlio



Ym mis Tachwedd rydym wedi nodi dechrau Wythnos Gwrth-fwlio gyda diwrnod sanau anghymarus. Mae'r diwrnod yn anfon neges bwysig i ddisgyblion y dylent fedru bod yn rhydd rhag bwlio ac mae'n ein helpu i ddathlu mewn ffordd hwyliog a chadarnhaol.

**Colofn y Dysgwyr**

Nid yw dechrau fy ail flwyddyn yn yr ysgol uwchradd wedi bod yn rhy ddrwg hyd yn hyn. Rwyf wedi mwynhau cyfarfod pobl newydd trwy gael dosbarthiadau gyda phobl wahanol. Roeddwn yn bryderus am gael athrawon newydd achos doeddwn i ddim yn gwybod sut rai oeddent, ond gan fy mod yn eu hadnabod nawr rwy'n fwy cysurus yn fy ngwersi. Cefais dipyn go lew o waith cartref oedd yn sioc ond, rwy wedi llwyddo i'w wneud i gyd. Gan ystyried popeth, rwyf wedi mwynhau fy nhymor cyntaf nôl yn yr ysgol uwchradd yn fawr iawn ac rwy'n gyffrous i weld beth ddaw yn y flwyddyn newydd

Gan Eds Edwards 8A

# Cyfarfod y Tîm Lles

## Pwy all eich cefnogi?

Miss R Rhys-Jones



Swyddog Diogelu

Pennaeth Campws

Mrs V Phillips



Dirprwy Swyddog Diogelu

Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mrs J Hilliard



Swyddog Bugeiliol

Mr D Elson



Swyddog Cefnogi Ymddygiad

## Cyfarfod y Tiwtoriaid Dosbarth



Mr Evans 8A



Miss Hardwick 8B



Mr Lewis 8C



Mr Simpson 8D

### Help yn ystod y Gwyliau

Gall yr adeg hon o'r flwyddyn fod yn anodd i rai – mae'n iawn os nad ydych yn teimlo fel dathlu. Dydych chi ddim ar eich pen eich hun ac mae Kooth UK bob amser yno i'ch cefnogi, pryd bynnag rydych yn teimlo fel estyn allan. Mae Kooth yn wasanaeth cyngor, cefnogi a lles diogel a dienw ar-lein yn benodol ar gyfer pobl ifanc fel chi. Os ydych chi neu rywun rydych yn ei adnabod yn cael trafferth, mae cefnogaeth ar gael gyda Kooth.



# Pynciau ar gyfer yr hanner tymor nesaf

## Celfyddydau Mynegiannol
## Expressive Arts

**Celf:** Yn dilyn ein prosiect lluniadu naturiol seiliedig ar sgil yn Nhymor yr Hydref bydd Tymor y Gwanwyn yn rhoi cyflwyniad i Flwyddyn 8 ar themau'r Mabinogion. Bydd y disgyblion yn datblygu a chreu gwairh celf a ysbrydolwyd gan storïau gwerin a Cymru.



**Drama**: Cymeriadu ac adeiladu setiau

**Cerddoriaeth**: Gwaith band, lleisiol ac offerynnol; Riptide - Vance Joy

## Iechyd a Lles
## Health and Wellbeing

**Bwyd/food:** Staple Foods

**PE**: Developeing the skills and knowledge of major games, e.g. rugby.



## Gwyddoniaeth & Thechnoleg
## Science & Technology

**DT:** Cwblhau 'Block Bot'
Iechyd a Diogelwch

**TGCh**: Ôl troed digidol a Diogelwch ar y Rhyngrwyd

**Gwyddoniaeth**: Dysgu am gelloedd a sut y maent yn cydweithio.
Datblygiad bywyd.



## Llythrennedd, Ieithoedd, a Chysylltiadau
## Literacy, Language and Communication

**Saesneg:** Calon y Mater

**Llythrennedd:** Yn ddiweddar mae'r ysgol wedi buddsoddi mewn platfform llythrennedd digidol: Bedrock Learning. Mae'r disgyblion yn cwblhau cyfres o wersi pythefnos a thasgau gwaith cartref fel rhan o raglen ymriad llythrennedd amserlenedig. Yr Adran Saesneg sy'n trefnu ac arwain y gwersi hyn. Nod y feddalwedd yw addysgu myfyrwyr yr eirfa academaidd haen dau sydd ei angen arnynt i gyrchu'r cwricwlwm a llwyddo yn yr ysgol. Wrth i ddisgyblion symud ymlaen drwy'r cwricwlwm, byddant yn astudio cannoedd o eiriau, ac yn darllen testunau ffuglen a ffeithiol yn rheolaidd. Byddwch, erbyn hyn, wedi derbyn eich codau mynediad gwarcheidwad er mwyn i chi edrych ar trefnydd gwybodaeth a derbyn adroddiadau cynnydd yn wythnosol ar gynnydd eich plentyn (trwy e-bost wedi i chi greu eich cyfrif Bedrock).

Bedrock Learning

**Cymraeg/ Welsh**: Siopau a ffasiwn

**Ffrangeg/French:** Bywyd Gwledig a Chysylltiadau

## Rhifedd a Mathemateg
## Mathematics and Numeracy

**Mathemateg**: Onglau ar linell, o gwmpas pwynt ac mewn cyflinellau.
Arddangos data achyfrannau a chymhareb.



## Y Dyniaethau
## Humanities

**Daearyddiaeth:** Datblygiad

**Hianes**: Mari waedlyd ac Elisabeth I

**Addysg Grefyddol:** mannau Addoli a phobl Ysbrydoledig.



Hoffem orffen y Cylchlythyr hwn trwy diolch i chi am eich cefnogaeth y tymor hwn. Dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi!